# Canllaw i Wasanaethau Ar ôl y Canlyniadau

Yn effeithiol o Orffennaf 2024

# Cynnwys

1. Rhagarweiniad ........................................................................................................ 3

2. Pwy sy'n cynnal yr adolygiadau o'r marcio neu gymedroli a sut maen nhw'n cael eu monitro? ........................................................................................................ 4

3. Sut mae adolygiad yn cael ei gynnal? ........................................................................ 4

4. Beth yw gwall cymedroli neu wall marcio? .................................................................. 5

5. Sut y dylid gwneud ceisiadau ac a fydd CBAC yn derbyn ceisiadau am adolygiadau o farcio neu gymedroli'n uniongyrchol gan ymgeiswyr? ................................................. 6

6. I ble fydd y llythyrau ynghylch y penderfyniadau am adolygiadau yn cael eu hanfon a pha wybodaeth fydd yn cael ei chynnwys? ........................................................................ 7

7. A oes proses apelio? ................................................................................................ 7

8. A fydd CBAC yn cynnal ymchwiliad pellach os oes pryder ynghylch marcio carfan? ..... 8

# 1. Rhagarweiniad

Mae CBAC wedi ymrwymo i sicrhau bod canlyniadau'r holl ymgeiswyr yn cael eu cyhoeddi'n gywir ar ddiwrnod y canlyniadau. Dilynwn brosesau sicrhau ansawdd er mwyn gwneud yn siŵr bod y canlyniadau'n gywir ac mae'r rhain i'w gweld ar ein gwefannau CBAC ac Eduqas.

Sylweddolwn, fodd bynnag, y gall gwallau ddigwydd ac rydym am sicrhau bod ein gwasanaethau ar ôl y canlyniadau yn cywiro unrhyw wallau mewn modd amserol. Mae'r gwasanaethau fel a ganlyn:

- Gwasanaeth 1: Ail-wiriad clercyddol
- Gwasanaeth 2: Adolygiad o'r marcio, ail-wiriad clercyddol a datganiad o'r marciau yn ôl uned/cydran ar gyfer ymgeisydd unigol
- Gwasanaeth 3: Adolygiad o gymedroli, os ydyn ni wedi newid marciau'r ganolfan yn ystod y cymedroli (nid yw'r gwasanaeth hwn ar gael i ymgeiswyr unigol)
- Mynediad i sgriptiau (gweler isod)

Cyhoeddir y terfynau amser a'r ffioedd yn y llyfryn Ffioedd a Therfynau Amser Gwasanaethau ar ôl y Canlyniadau ar ein gwefannau CBAC ac Eduqas.

Mynediad i sgriptiau: Gall canolfannau lwytho sgriptiau i lawr ar ran ymgeiswyr o wefan ddiogel CBAC sydd hefyd yn cynnwys y cyfarwyddiadau ar y broses hon. **Sylwer, mae'n rhaid i ganolfan gael caniatâd yr ymgeisydd cyn llwytho sgript i lawr neu wneud cais am sgript.** Bydd sgriptiau ar gael i'w llwytho i lawr o ddiwrnod y canlyniadau am 6 mis. **Noder, nid yw'n bosibl cyflwyno cais am adolygiad o'r marcio ar ôl y dyddiad cau.**

**Rhaid i ganolfannau gael cydsyniad ysgrifenedig gan ymgeisydd cyn cyflwyno cais am ail-wiriad clercyddol ac adolygiad o'r marcio gan y gall marc a gradd yr ymgeisydd fynd i fyny, i lawr neu aros yr un fath. Ni ellir canslo cais unwaith y bydd CBAC wedi cyhoeddi canlyniad, o dan unrhyw amgylchiadau. Nid oes angen cydsyniad ymgeisydd ar gyfer adolygiad o gymedroli gan na fydd y radd wreiddiol yn cael ei gostwng. Fodd bynnag, dylai ymgeiswyr a chanolfannau fod yn ymwybodol y byddai marc wedi'i ostwng yn cael ei drosglwyddo i ardystiad yn y dyfodol.**

Os hoffai canolfan ganslo cais cyn cyhoeddi'r canlyniad yna bydd angen cysylltu â prs@wjec.co.uk mewn pryd, ac mae'n bosibl y bydd angen talu am ganslo.

Mae canllaw'r CGC Ar ôl y Canlyniadau ar gael yma.

## 2. Pwy sy'n cynnal yr adolygiadau o'r marcio neu gymedroli a sut maen nhw'n cael eu monitro?

Mae CBAC yn penodi adolygwyr sy'n uwch arholwyr neu gymedrolwyr profiadol. Mae CBAC yn cadw cofrestr o fuddiannau ar gyfer ei holl benodedigion sy'n sicrhau nad oes gwrthdaro buddiannau gan adolygwr wrth gyflawni'r rôl o adolygu. Mae'r adolygwr yn unigolyn gwahanol i'r arholwr neu'r cymedrolwr gwreiddiol.

Mae'r holl adolygwyr yn cyflawni hyfforddiant gorfodol yn eu rôl o adolygu. Mae'r hyfforddiant ar gyfer adolygiadau o'r marcio yn cynnwys gwylio a deall cynnwys fideo hyfforddiant yr adolygwr, ail-ymgyfarwyddo â'r papur cwestiynau a'r cynllun marcio, adolygu sgriptiau'r hyfforddiant safoni gwreiddiol a ddarparwyd i arholwyr, deall 'rhesymoldeb' a sut mae'n cael ei gymhwyso yn y broses adolygu, a darllen a deall y cyfarwyddiadau a'r ddogfen ganllaw a ddarperir gan CBAC. Yn yr hyfforddiant ar gyfer adolygiadau o'r marcio bydd yr adolygwr yn ymgyfarwyddo â gofynion y fanyleb a'r cyfarwyddiadau a roddwyd yng nghynhadledd safoni gychwynnol y cymedrolwyr, y cynllun marcio a'r safonau a sefydlwyd yn y gynhadledd safoni a'i chymhwyso yn ystod y broses gymedroli wreiddiol, a'r ddogfen cyfarwyddiadau a chanllawiau.

Mae CBAC yn monitro pob adolygwr yn ofalus trwy:

• sicrhau bod pob adolygwr wedi'i hyfforddi cyn dechrau ar unrhyw adolygiad o farcio/cymedroli

• craffu ar nifer y newidiadau i farciau sydd wedi'u gwneud, a chofnodi unrhyw faterion sydd wedi'u nodi ynghylch perfformiad arholwyr/cymedrolwyr

• gwirio bod penderfyniadau yn gyson â'r safon a osodwyd yn y gynhadledd safoni wreiddiol

• sicrhau bod yr holl adolygwyr yn glynu wrth yr Arweiniad i Adolygwyr sy'n bodloni gofynion yr amodau rheoleiddio, yn enwedig mewn perthynas â sicrhau mai dim ond gwallau marcio/cymedroli sy'n cael eu cywiro.

Os, yn ystod y monitro, bydd CBAC yn nodi nad yw adolygwr wedi cyflawni ei rôl yn gywir, byddwn yn cymryd camau i gywiro'r sefyllfa. Gallai hyn gynnwys ailhyfforddi neu ail-ddyrannu'r adolygiadau i adolygwr arall.

## 3. Sut mae adolygiad yn cael ei gynnal?

Darperir copi o sgript neu waith ymgeisydd wedi'i g/chymedroli, copi o'r cynllun marcio, y marc a'r anodiadau gwreiddiol i'r adolygwr. Yn nogfen GCE and GCSE Qualification Level Guidance Ofqual nodir y canlynol: *'anyone carrying out a review must consider the original mark given by a trained assessor'* (h.y. yr arholwr neu'r cymedrolwr gwreiddiol) *'and only make a change to the mark where the marking of the assessment included a marking error'.*

Rôl yr adolygwr yw penderfynu a yw'r arholwr/cymedrolwr gwreiddiol wedi cymhwyso'r cynllun marcio'n gyson, yn iawn ac yn deg ac a oedd y marc a ddyfarnwyd yn farc rhesymol. Nid ymarfer ail-farcio nac ail-gymedroli yw'r adolygiad oni bai y nodir gwall gyda'r marcio/cymedroli gwreiddiol.

Bydd yr adolygwr yn ystyried pob tasg a'r asesiad yn ei gyfanrwydd ac yn penderfynu p'un a ellid bod wedi dyfarnu'n rhesymol y marc gwreiddiol/gradd wreiddiol. Bydd y broses adolygu yn:

- Penderfynu a fu gwall gweinyddol yn y marcio (e.e. methu â marcio rhan o'r asesiad neu wall cyfrifo)
- Penderfynu p'un a yw'r dasg yn un lle mae marc 'cywir' neu 'anghywir' yn unig neu'n un sy'n gofyn am arfer barn academaidd
- Penderfynu a yw'r marc cywir wedi'i roi os mai dim ond marc 'cywir' neu 'anghywir' sydd yno a chywiro'r marc os oes gwall wedi digwydd
- Penderfynu, os yw barn academaidd wedi'i harfer, a oedd y marcio yn cynnwys unrhyw ymarfer afresymol o farn academaidd. Lle canfyddir hyn, caiff y gwall ei gywiro

Os oes cyfle i newid y marciau/gradd, bydd yr adolygwr yn dogfennu'r rhesymau. Bydd y rhesymau fel a ganlyn:

- gwall gweinyddol
- ni farciwyd y sgript yn gwbl gytûn â'r cynllun marcio
- roedd y marcio gwreiddiol yn rhy hael
- roedd y marcio gwreiddiol yn rhy lym
- roedd y marcio gwreiddiol yn hael ac yn llym ar draws cwestiynau gwahanol.

Ni fydd yr adolygwr yn newid y marciau oni bai bod gwall marcio.

## 4. Beth yw gwall cymedroli neu wall marcio?

Mae gwall cymedroli yn cael ei ddiffinio fel canlyniad na ellid yn rhesymol fod wedi'i gyrraedd o ystyried gwaith yr ymgeisydd, marcio'r ganolfan ar y gwaith hwnnw, y meini prawf y mae perfformiad ymgeiswyr wedi'u gwahaniaethu yn eu herbyn a gweithdrefnau cymedroli CBAC.

Mae gwall marcio'n cael ei ddiffinio fel marc na ellid yn rhesymol fod wedi'i ddyfarnu i ymatebion ymgeisydd pan fydd y cynllun marcio ar gyfer y papur a gweithdrefnau marcio eraill CBAC wedi'u cymhwyso'n gywir.

Gall gwall yn y marcio neu gymedroli ddigwydd o ganlyniad i'r canlynol:

- gwall gweinyddol
- methiant i gymhwyso'r cynllun marcio os mai dim ond ateb 'cywir' neu 'anghywir' sydd i dasg
- arfer barn academaidd yn afresymol.

Gall gwall marcio ddigwydd, er enghraifft, os nad yw arholwr wedi cymhwyso'r cynllun marcio yn iawn neu heb farcio ymateb teilwng.

Fodd bynnag, mewn llawer o asesiadau, fel traethodau Saesneg neu Hanes, nid oes 'marc cywir' a 'marc anghywir'. Mae'r mathau hyn o asesiadau yn gofyn i arholwyr/cymedrolwyr ddefnyddio'u barn academaidd. Gallai dau arholwr/cymedrolwr hyfforddedig sy'n arfer eu barn academaidd yn rhesymol a heb wneud camgymeriad, ddyfarnu marciau gwahanol i ateb yr un ymgeisydd ac nid ystyrir hyn yn wall marcio.

Yn unol â gofynion y rheoleiddwyr, bydd CBAC bob amser yn newid marc os oes gwall wedi bod ond ni fydd yn newid un marc rhesymol am farc arall mewn achos o wahaniaeth barn academaidd. Mae Canllaw Lefel Cymhwyster Ofqual yn nodi mai'r 'man cychwyn, bob amser, i ystyried a arferwyd barn academaidd yw'r marc sy'n cael ei herio (ac nid unrhyw farc arall y dylid bod wedi'i ddyfarnu ym marn y Dysgwr/Ganolfan)'.

Mae enghreifftiau o gymhwyso barn academaidd yn afresymol yn cynnwys:

- marcio sy'n rhy lym neu hael y tu hwnt i'r hyn y gellid ei ddisgwyl gan arholwr/cymedrolwr hyfforddedig yn cymhwyso'r cynllun marcio yn gywir
- lle na roddwyd marc i ran o ateb ond lle y dylai arholwr/cymedrolwr hyfforddedig a gwybodus sy'n ymddwyn yn rhesymol fod wedi rhoi marc
- lle mae marcio ateb yn awgrymu nad oedd gan yr arholwr/cymedrolwr unrhyw sail resymegol dros ddyfarnu ei m/farciau.

## 5. Sut y dylid gwneud ceisiadau ac a fydd CBAC yn derbyn ceisiadau am adolygiadau o farcio neu gymedroli'n uniongyrchol gan ymgeiswyr?

Mae'n well gan CBAC weithio gyda staff canolfan sy'n ymwybodol o'r safon a ddisgwylir yng ngwaith eu hymgeiswyr. Rhaid i geisiadau ar gyfer pob ymgeisydd mewnol gael eu gwneud gan ganolfan ymgeisydd gan ddefnyddio gwefan ddiogel CBAC. Byddem yn annog ymgeiswyr preifat i ofyn am gyngor ac i wneud cais drwy eu canolfan gofrestru ond gallant hefyd wneud cais yn uniongyrchol drwy e-bostio ein Gwasanaeth Ar ôl y Canlyniadau – prs@wjec.co.uk yn nodi enw'r ymgeisydd, rhif yr ymgeisydd, rhif ac enw'r ganolfan mewn unrhyw ohebiaeth.

O ran yr unedau a asesir yn fewnol, dim ond y sampl gwreiddiol a gyflwynwyd y byddwn yn ei adolygu, a hynny dim ond os addaswyd marciau. Felly, dim ond gan ganolfannau y byddwn

yn derbyn ceisiadau am adolygiadau o gymedroli, nid yn uniongyrchol gan ymgeiswyr neu rieni ymgeiswyr. Mae'n ofynnol i ganolfannau gael gweithdrefn apeliadau mewnol i alluogi ymgeiswyr i apelio yn erbyn penderfyniadau'r ganolfan cyn cyflwyno marciau i CBAC.

Mewn achosion lle mae canolfannau wedi cau, ac felly nid ydynt yn gweithredu fel ysgol/coleg mwyach pan fydd eu cyn-fyfyrwyr yn derbyn eu canlyniadau, byddwn yn ystyried y dull gorau ar gyfer myfyrwyr yr effeithiwyd arnynt, y mae arnynt angen gwneud cais am adolygiad o'r marcio.

## 6. I ble fydd y llythyrau ynghylch y penderfyniadau am adolygiadau yn cael eu hanfon a pha wybodaeth fydd yn cael ei chynnwys?

Bydd CBAC yn rhoi gwybod am ganlyniad adolygiad o'r marcio i ganolfan ymgeisydd neu'n uniongyrchol i ymgeisydd preifat. Os bu gwall yn y marcio, byddwn yn rhoi gwybod am newid yn y marc, y newid yn y radd (os yw'n berthnasol) a'r rheswm. Mae'r rhesymau dros newid mewn marc/gradd yn cael eu categoreiddio fel:

- gwall gweinyddol
- ni farciwyd y sgript yn gwbl gytûn â'r cynllun marcio
- roedd y marcio gwreiddiol yn rhy hael
- roedd y marcio gwreiddiol yn rhy lym
- roedd y marcio gwreiddiol yn hael ac yn llym ar draws cwestiynau gwahanol.

Mewn achos o adolygiad o'r cymedroli, bydd CBAC yn rhoi adroddiad i'r ganolfan am yr adolygiad o'r cymedroli, ni waeth a yw'r canlyniad wedi newid neu'n aros yr un fath.

## 7. A oes proses apelio?

Os yw'r canolfannau'n teimlo bod gwall o hyd, gallant gyflwyno cais am apêl yn erbyn canlyniad adolygiad o'r marcio neu'r cymedroli fel yr amlinellir yn nogfen Apeliadau'r CGC a dogfen CBAC, 'Apeliadau – Canllaw i Ganolfannau', ar gael yma. Rhaid cyflwyno apêl o fewn 30 diwrnod calendr i gyhoeddi canlyniad yr adolygiad o'r marcio/cymedroli. Os yw'r rhesymau am y Canlyniad a/neu gopi o'r sgript(iau) wedi'u darparu o fewn 15 diwrnod calendr ar ôl i'r corff dyfarnu gyhoeddi'r Canlyniad, mae'n rhaid cyflwyno cais am apêl o fewn 30 diwrnod calendr o hyd.

Os yw'r rhesymau am y Canlyniad a/neu gopi o'r sgript(iau) wedi'u darparu ar ôl 15 diwrnod calendr ar ôl i'r corff dyfarnu gyhoeddi'r Canlyniad, mae'n rhaid cyflwyno cais am apêl o fewn 15 diwrnod calendr.

Gall ymgeisydd preifat gyflwyno apêl yn erbyn canlyniad adolygiad o'r marcio drwy e-bostio ein Tîm Cydymffurfio – appeals@wjec.co.uk yn nodi enw a rhif yr ymgeisydd ac enw a rhif y ganolfan mewn unrhyw ohebiaeth.

## 8. A fydd CBAC yn cynnal ymchwiliad pellach os oes pryder ynghylch marcio carfan?

Drwy gydol y cyfnod adolygu'r marcio, mae CBAC yn monitro canlyniadau'r adolygiadau i asesu p'un a oes unrhyw bryderon y mae angen eu hymchwilio ymhellach. Mae ein proses fonitro yn cynnwys adnabod ***'newidiadau arwyddocaol i farciau'.***

Diffiniad o **newidiadau arwyddocaol i farciau** yw naill ai:

- mae hanner, neu fwy, o'r ceisiadau (rhaid eu bod yn ffurfio o leiaf 10% o garfan gyfan y ganolfan) a gyflwynwyd ar gyfer un gydran neu uned benodol, yn newid o fwy na 5% o gyfanswm y marciau crai sydd ar gael am yr asesiad penodol

  **NEU**

- mae chwarter, neu fwy, o'r ceisiadau (y mae'n rhaid iddyn nhw ffurfio o leiaf 10% o garfan gyfan y ganolfan) a gyflwynwyd ar gyfer un gydran neu uned benodol, yn newid o fwy na 10% o gyfanswm y marciau crai sydd ar gael am yr asesiad penodol.

Os ydym yn canfod newidiadau sylweddol yn y marciau mewn cydran neu uned benodol, cynghorir y ganolfan i gyflwyno ceisiadau pellach am adolygiadau o'r marcio **o fewn pum diwrnod gwaith**, gan ddewis pob ymgeisydd sy'n peri pryder. Fodd bynnag, **rhaid** i'r ganolfan dderbyn cydsyniad pob ymgeisydd a gyflwynir am adolygiad o'r marcio, gan y gall marciau godi, gostwng neu aros yr un peth.

Ceir enghreifftiau isod sy'n dangos sefyllfaoedd lle byddai CBAC yn ystyried ac yn gwrthod ymchwilio ymhellach.

**a) Canolfan 1**

Cofrestrwyd 50 ymgeisydd gan Ganolfan 1 ar gyfer TGAU Drama, ac mae'r ganolfan yn cyflwyno cais i adolygu'r marcio ar gyfer un papur, â chyfanswm o 80 marc, i 5 ymgeisydd. Mae marc un ymgeisydd yn newid o 50 i 53 o ganlyniad i'r adolygiad o'r marcio. Mae marciau'r pedwar ymgeisydd arall yn aros yr un peth.

*Nid ystyrir hyn am ymchwiliad pellach gan nad oes tuedd o newid arwyddocaol yn y marciau. Er bod y ganolfan wedi gwneud cais dros o leiaf 10% o'r garfan, dim ond* ***un*** *ymgeisydd sydd wedi gweld newid yn y marciau. Yn ogystal, nid yw'r marc wedi newid o* ***fwy na 5% o gyfanswm y marciau crai sydd ar gael am yr asesiad penodol hwn.***

**b) Canolfan 2**

Cofrestrwyd 200 ymgeisydd gan Ganolfan 2 ar gyfer TGAU Saesneg Iaith, ac mae'r ganolfan yn cyflwyno cais am adolygiad o'r marcio ar gyfer un papur, â chyfanswm o 100 marc, i 10 ymgeisydd.

Mae canlyniad yr adolygiad o'r marcio fel a ganlyn:

Mae marc un ymgeisydd yn cael ei newid o 70 i 76

Mae marc un ymgeisydd yn cael ei newid o 50 i 43

Mae marc un ymgeisydd yn cael ei newid o 80 i 83

Mae marciau saith ymgeisydd yn aros yr un peth

*Nid ystyrir hyn am ymchwiliad pellach gan nad oes tuedd o newid arwyddocaol yn y marciau. Nid yw'r ganolfan wedi gwneud cais ar gyfer* ***o leiaf 10% o'r garfan****. Mae tystiolaeth o farciau dau ymgeisydd yn newid (yn codi ac yn gostwng)* ***o fwy na 5% o gyfanswm y marciau crai ar gyfer y papur****. Fodd bynnag, mae'r marciau ar gyfer un ymgeisydd wedi* ***symud o lai na 5% o gyfanswm y marciau crai*** *ac mae marciau'r saith ymgeisydd sy'n weddill wedi aros yr un peth.*

**c) Canolfan 3**

Cofrestrwyd 20 ymgeisydd gan Ganolfan 3 ar gyfer TAG Bioleg, ac mae'r ganolfan yn cyflwyno cais i adolygu'r marcio ar gyfer un papur, â chyfanswm o 60 marc, i 2 ymgeisydd.

Mae canlyniad yr adolygiad o'r marcio fel a ganlyn:

Mae marc un ymgeisydd yn cael ei newid o 40 i 44

Mae marc un ymgeisydd yn cael ei newid o 50 i 43

*Ystyrir hyn am ymchwiliad pellach. Mae'r ganolfan wedi gwneud cais ar gyfer* ***o leiaf 10% o'r garfan****. Mae tystiolaeth o farciau dau ymgeisydd yn newid (yn codi ac yn gostwng)* ***o fwy na 5% o gyfanswm y marciau crai ar gyfer y papur.*** *Cynghorir y ganolfan i gyflwyno unrhyw geisiadau pellach am adolygiad o'r marcio o fewn pum diwrnod gwaith, gan ddewis pob ymgeisydd sy'n peri pryder. Atgoffir y ganolfan bod angen cydsyniad pob ymgeisydd a gyflwynir am adolygiad o'r marcio, gan y gall marciau godi, gostwng neu aros yr un peth. Ni all canolfannau ddewis derbyn newidiadau sy'n golygu bod cynnydd yn y marciau, a gwrthod newidiadau sy'n golygu bod gostyngiad yn y marciau.*

**d) Canolfan 4**

Cofrestrwyd 40 ymgeisydd gan Ganolfan 4 ar gyfer TAG Daearyddiaeth, ac mae'r ganolfan yn cyflwyno cais am adolygiad o'r marcio ar gyfer dau bapur, â chyfanswm o 80 marc, i 5 ymgeisydd.

Mae canlyniad yr adolygiad fel a ganlyn:

Papur 1

Mae marc un ymgeisydd yn cael ei newid o 60 i 50

Mae marc un ymgeisydd yn cael ei newid o 55 i 43.

Mae marc un ymgeisydd yn cael ei newid o 37 i 28.

Mae marciau dau ymgeisydd yn aros yr un peth.

Papur 2

Mae marciau'r pum ymgeisydd yn aros yr un peth.

*Ystyrir Papur 1 am ymchwiliad pellach. Mae'r ganolfan wedi gwneud cais ar gyfer* ***o leiaf 10% o'r garfan.*** *Mae tystiolaeth o farciau tri ymgeisydd* ***yn newid o fwy na 10% o gyfanswm marciau'r papur****. Cynghorir y ganolfan i gyflwyno unrhyw geisiadau pellach am adolygiad o'r marcio o fewn pum diwrnod gwaith, gan ddewis pob ymgeisydd sy'n peri pryder. Atgoffir y ganolfan bod angen cydsyniad pob ymgeisydd a gyflwynir am adolygiad o'r marcio, gan y gall marciau godi, gostwng neu aros yr un peth. Ni all canolfannau ddewis derbyn newidiadau sy'n golygu bod cynnydd yn y marciau, a gwrthod newidiadau sy'n golygu bod gostyngiad yn y marciau.*

*Nid ystyrir papur 2 am ymchwiliad pellach gan nad oes tuedd o newid arwyddocaol yn y marciau.*